Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddiabetes
Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – 12fed Rhagfyr, 2017

**Yn bresennol**

Sara Moran, Diabetes UK Cymru
Menna Plassman - Diabetes UK Cymru
Gethin Jones - Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
Rob Lee
Beth Baldwin
Dr Dai Lloyd AC

**Cyfarfod**

Croeso a diolch i'r holl aelodau am eu hymrwymiad a'u cyfraniad dros y flwyddyn.

Crynodeb byr o gyfarfodydd blaenorol:
- Diabetes a phobl ifanc
- Adnabod Math 1 – digwyddiad lansio'r ymgyrch '4 Ts'
- Gordewdra ac atal
- Dyfodol gwasanaeth galw heibio Diabetes a lansio adroddiad

Blwyddyn wirioneddol gadarnhaol i'r Grŵp Trawsbleidiol – mae'r aelodaeth, presenoldeb a'r diddordeb wedi tyfu'n sylweddol ac rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol.  Diolch i Sara Moran am ddarparu'r Ysgrifenyddiaeth.

**Ethol swyddogion.**

**Cadeirydd** -  Ail-ethol Jayne Bryant yn Gadeirydd
**Ysgrifenyddiaeth**  - Ail-ethol Sara Moran i barhau yn y swydd hon
**Aelodau'r Grŵp** -  bydd yr aelodau presennol (Dai Lloyd AC - Plaid Cymru, Rhun Ap Iorwerth AC - Plaid Cymru, Lynne Neagle AC - Llafur, Julie Morgan AC - Llafur, Jenny Rathbone AC - Llafur) yn parhau'n Aelodau. Mae Caroline Jones AC (UKIP) hefyd yn dymuno dod yn aelod ffurfiol o'r grŵp.

**Trafodaeth am bosibiliadau ar gyfer y Grŵp i'r dyfodol:**

Yn 2018, gwelodd y Grŵp lawer o ddigwyddiadau mawr gyda nifer fawr o bobl yn dod iddynt - tynnodd dau lansiad adroddiad yn arbennig dyrfaoedd mawr a oedd yn eithaf anghyffredin i'r grŵp yn hanesyddol.  Yn flaenorol, roedd y Grŵp wedi cael cyfarfodydd llai, wedi'u seilio'n fwy ar drafodaeth, a byddai'n dda cael cydbwysedd ac ailystyried efallai a monitro sut mae'r cyfarfodydd yn digwydd.

O ran pynciau i'r dyfodol, yr awgrymiadau oedd:

- Fflach Fonitro-glwcos, o ystyried bod technoleg newydd ar gael ar bresgripsiwn erbyn hyn

- Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Mae Sara a Gethin Jones o’r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant yn cyd-gadeirio Grŵp newydd Cynghrair Gordewdra Cymru, ac maen nhw'n gobeithio y gall y gwaith hwn fwydo i'r Grŵp Trawsbleidiol
- Cael diweddariad ar yr Ymgyrch Know Type 1 gyda'r pwyllgor deisebau (gallai fod yn werth diweddariad blynyddol yn y dyfodol)
- Hysbysu ac addysgu pobl ifanc am iechyd, maeth ac ati - gallai hynny gysylltu â gwaith y pwyllgor iechyd

****DIWEDD Y CYFARFOD****